

# Darganfod

## Canllawiau

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd ei ddarllen, braille, sain ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Cynnwys


Trosolwg .......... 3

Pwy a all ymgeisio? .......... 3

A allaf ymgeisio i gronfa Darganfod a chronfeydd eraill hefyd? .......... 4

Beth a allai’r cais ei ariannu? .......... 5

Am faint y gallaf wneud cais? .......... 6

Pa gwestiynau bydd angen i mi eu hateb? .......... 6

Sut gallaf ymgeisio? .......... 7

Beth os oes gyda fi gwestiwn? .......... 7

Beth yw’r dyddiad cau? .......... 7

## Trosolwg

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ddarganfod y celfyddydau mynegiannol. Gallai hynny feddwl rhoi cynnig ar rywbeth newydd, datblygu ei sgiliau creadigol a chelfyddydol neu feithrin ei les a'i hunan-barch. Gall natur ddeinamig y celfyddydau mynegiannol ymgysylltu â disgyblion a'u hysgogi a'u hannog i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau perfformio a'u doniau creadigol ac artistig.

Mae'r gronfa Darganfod yn cynnig grantiau o hyd at £3,000 fel y gall disgyblion rhwng 3 a 16 oed gymryd rhan mewn gweithgarwch ymarferol yn y celfyddydau mynegiannol, yn yr ysgol a'r tu allan iddi gydag ymarferwyr creadigol allanol. Mae Darganfod yn galluogi athrawon i archwilio cyfleoedd cyfoethog a dilys i wella a chyfoethogi dysgu yn y celfyddydau mynegiannol. Bydd athrawon yn gallu rhoi cyfleoedd i'w disgyblion ddarganfod, mireinio a chyfathrebu syniadau wrth feddwl yn greadigol ac ennyn eu diddordeb, eu dychymyg a'u synhwyrau.

Mae Darganfod yn cefnogi'r rhaglen ar gyfer Llywodraeth 2021-26 a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerdd. Mae'r gronfa yn ymdrin â'r pum disgyblaeth: celf; dawns; drama; cerddoriaeth; ffilm a'r cyfryngau digidol.

## Pwy a all ymgeisio?

**Mae Darganfod ar gael i ariannu:**

- Pob ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 16 oed.
- Unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru i'r rhai 3-16 oed.

Ni allwn gefnogi addysg ôl-16 sy'n cynnwys Colegau Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth.

**Gellir cyflwyno ceisiadau Darganfod drwy:**

- Ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth.
- Uned cyfeirio disgyblion.
- Sefydliad celfyddydol/diwylliannol sydd yng Nghymru.

Nid yw ymarferwyr/unigolion creadigol yn gallu cyflwyno ceisiadau i gronfa Darganfod. Rhaid i geisiadau am weithgarwch sy'n cael ei ddarparu gan ymarferydd creadigol gael eu cyflwyno gan yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion.

# A allaf ymgeisio i gronfa Darganfod a chronfeydd eraill hefyd?

### Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Gallwch ymgeisio i gronfa Darganfod a hefyd:

- Ymgeisio am brosiectau creadigol eraill fel Ysgolion Creadigol Arweiniol, Cynefin neu Ewch i Weld.
- Ymgeisio i Ewch i Weld i gefnogi dysgu eich disgyblion.
- Gallwch ymgeisio i gronfa Darganfod fwy nag unwaith drwy'r flwyddyn ond rhaid i chi gyflwyno eich adroddiad diweddu cyn ailymgeisio.

Ni allwch:

- Bod â rhagor nag un cais Darganfod ar agor ar y tro.
- Defnyddio Darganfod am weithgarwch sy'n gysylltiedig â'ch prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol neu Gynefin.

### Sefydliadau celfyddydol

Gallwch ymgeisio i gronfa Darganfod a hefyd:

- Ymgeisio am grantiau eraill gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Gallwch ymgeisio i gronfa Darganfod fwy nag unwaith drwy'r flwyddyn, ond rhaid i chi gyflwyno eich adroddiad diweddu cyn ailymgeisio.

Ni allwch:

- Bod â rhagor nag un cais Darganfod ar agor ar y tro.
- Cael eich enwi fel darparwr gweithgarwch mewn rhagor na thri chais Darganfod sydd ar agor ar yr un pryd. Rhaid i'r prif ymgeisydd gyflwyno adroddiadau diweddu i gau grantiau cyn y gall enwi sefydliad celfyddydol neu ymarferydd creadigol mewn ceisiadau eraill i gronfa Darganfod.
- Defnyddio Darganfod i gynnal prosiectau sy'n digwydd yn barod.
- Defnyddio arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn arian cyfatebol Darganfod.

# Beth a allai’r cais ei ariannu?

**Gallwch ddefnyddio Darganfod i ariannu:**

- Gweithgarwch ymarferol ym maes y celfyddydau mynegiannol i ddisgyblion gan naill ai sefydliad celfyddydol neu ymarferydd creadigol.
- Darparu profiadau a fydd yn gwella ac yn cyfoethogi dysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Gall y gweithgarwch ddigwydd naill ai mewn ysgol neu mewn lleoliad addas yng Nghymru. Gall fod yn ystod oriau ysgol neu fel gweithgarwch allgyrsiol. Gall fod yn sesiwn unigol neu gall ddigwydd ar draws nifer o ddiwrnodau.

Dyma ychydig o gyngor am y math o bethau yr ydym yn barod i'w hystyried fel rhan o holl gost y prosiect:

- Ffioedd proffesiynol yr artistiaid, yr ymarferwyr creadigol a’r sefydliadau celfyddydol gan gynnwys treuliau teithio os oes angen.
- Llogi bws neu gostau cludiant cyhoeddus os yw'r gweithgarwch yn digwydd mewn lleoliad y tu allan i'r ysgol. Rydym yn disgwyl i chi ddefnyddio'r dull mwyaf economaidd ac ymarferol o deithio a dim ond cludiant i leoedd yng Nghymru y gallwn ei ariannu.
- Ceisiadau gan sefydliadau celfyddydol sy'n cynnwys rhagor nag un ysgol cyn belled â bod y cais yn dangos sut y bydd y profiad arfaethedig yn darparu gweithgarwch ymarferol a sut y bydd yn cefnogi addysgu a dysgu pob ysgol a enwir.
- Hyd at £500 am gost deunyddiau.
- Llogi offer.

**Yn anffodus, ni allwn ariannu:**

- Gweithgarwch sydd wedi digwydd yn barod neu sydd eisoes wedi dechrau.
- Gweithgarwch a allai ddigwydd heb ein harian a/neu sydd wedi cael ei ariannu neu ei dalu amdano’n barod. Nid oes sicrwydd i chi gael arian gan gronfa Darganfod, felly ni ddylech gytuno i drefniadau cyn i chi gael y fath sicrwydd.
- Dysgu creadigol ar draws meysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Hyfforddiant cerdd.
- Gwariant cyfalaf/prynu offer gan gynnwys offerynnau.
- Trwyddedau meddalwedd.
- Aros dros nos neu luniaeth.
- Gweithgarwch sy’n digwydd y tu allan i Gymru.
- Staff ysgol ychwanegol.
- Gweithgarwch nad oes ganddo ffocws ar y celfyddydol mynegiannol.

Os yw ffocws eich gweithgarwch ar ymweld â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweld â gweithwyr celfyddydol a’u gweld yn creu eu gwaith, yn hytrach nac ar roi cynnig ar rywbeth ymarferol, ewch i’n canllawiau Ewch i Weld yn lle Darganfod.

## Am faint y gallaf wneud cais?

Hyd at £3,000 yw uchafswm y grantiau.

Bydd y swm y byddwch yn gwneud cais amdano yn dibynnu ar y math o weithgarwch sydd gennych yn y golwg. Gallai fod yn weithdy hanner diwrnod neu'n weithgarwch sy'n digwydd dros ychydig ddyddiau.

Ni allwn ariannu holl gost eich gweithgarwch. 90% yw'r ganran uchaf o holl gost eich gweithgarwch y gallwn ei ariannu a gall eich arian cyfatebol fod yn gymysgedd o arian parod neu gefnogaeth mewn nwyddau. Er enghraifft, os yw holl gost eich gweithgarwch yn £2,500, byddwn yn dyfarnu £2,250. Y £250 sydd ei eisiau fydd yr arian cyfatebol yr ydych chi wedi cyfeirio ato yn eich cais.

### Canllawiau i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion am y 10% o arian cyfatebol

Gall hyn fod mewn nwyddau fel costau cyflenwi athrawon neu gallai fod yn arian parod sy'n gyfraniadau codi arian gan y rhieni neu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Nid oes angen i chi anfon yr arian cyfatebol atom yn uniongyrchol, dim ond rhoi gwybod i ni yn eich cais sut y dewch chi o hyd iddo.

### Canllawiau i sefydliadau celfyddydau am y 10% o arian cyfatebol

Mae'n rhaid i'r arian cyfatebol ddod o ffynhonnell nad yw'n Gyngor Celfyddydol Cymru. Rhaid i o leiaf 10% o holl gost eich gweithgarwch ddod o ffynonellau ar wahân i arian y Loteri Genedlaethol ond gall gynnwys cefnogaeth mewn nwyddau.

## Pa gwestiynau bydd angen i mi eu hateb?

Yn eich cais, bydd angen i chi ddweud wrthym:

- Beth fydd holl gost eich gweithgarwch?
- Am ba agweddau o'r gost ydych chi'n gwneud cais? Er enghraifft, ffioedd a deunyddiau proffesiynol.
- O ble y daw'r arian cyfatebol o 10% o holl gost y prosiect?
- Beth fydd y gweithgarwch a phwy fydd yn ei gynnal?
- Ble bydd y gweithgarwch yn digwydd a sut byddwch chi'n cyrraedd yno?
- Beth fydd oed y disgyblion a faint fydd yn mynd?
- Sut bydd y profiad yn gwella ac yn cyfoethogi addysgu a dysgu ym maes dysgu a phrofiad y celfyddydau mynegiannol?

Ar ôl ichi orffen eich gweithgarwch, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen fer ar-lein (yr adroddiad diweddu) sy'n fodd i ni ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd. Gallwch gynnwys lluniau a dyfyniadau gan y disgyblion hefyd os hoffech. Mae'r adroddiad diweddu hefyd yn fodd i ni wirio bod eich gweithgarwch wedi digwydd. Ar ôl i chi ei gyflwyno, rydym yn cau eich grant a gallwch wneud cais eto.

## Sut gallaf ymgeisio?

Er mwyn mynd at y ffurflen gais bydd angen i chi gofrestru ar ein porth ar-lein. Rydym yn argymell eich bod yn cofrestru o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau ar eich cais. Ar ôl i chi dderbyn eich manylion mewngofnodi, gallwch eu defnyddio i fynd at bob ffurflen gais dysgu creadigol ac ni fydd angen i chi ailgofrestru pan fyddwch chi eisiau gwneud cais eto.

Os hoffech ragor o gymorth wrth fynd i'r porth ar-lein, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth:

- grantiau@celf.cymru
- 029 2044 1300 neu 03301 242733 (llinell gymorth a thalwch yr un pris ag ar gyfer galwadau lleol)

## Beth yw'r dyddiad cau?

Nid oes dyddiad cau ar gyfer Darganfod. Mae hyn yn golygu y gallwch wneud cais am arian ar unrhyw adeg. Gan amlaf, byddwch yn clywed mewn 4 wythnos waith a oedd eich cais yn llwyddiannus ai peidio. Rydym yn argymell ichi gyflwyno eich cais o leiaf 5 wythnos waith cyn dyddiad cychwyn eich prosiect i ganiatáu amser i ni brosesu eich grant. Gallwn wrthod ceisiadau sy'n ein cyrraedd llai na 5 wythnos waith cyn y gweithgarwch arfaethedig.

Cofiwch mai dim ond un cais Darganfod y gall ysgolion ei gael ar agor ar y tro. Felly o gyflwyno ceisiadau 12 wythnos neu'n fwy cyn y gweithgarwch, gallwch yn ddiarwybod atal athrawon a disgyblion eraill yn yr ysgol rhag defnyddio'r gronfa.

## Beth os oes gyda fi gwestiwn?

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, croeso i chi gysylltu â ni.**

E-bostiwch ni: dysgu.creadigol@celf.cymru

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb i bob ymholiad mor brydlon ag y gallwn. Os hoffech i ni eich ffonio'n ôl, gadewch eich rhif ffôn a byddwn yn eich ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl.

Cewch wybod mwy am faes dysgu a phrofiad y celfyddydau mynegiannol yma.